Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Prifysgol Cymru
University of Wales

colegsirgâr

colegceredigion

# Polisi yng nghyswllt Categorïau Arbennig o Ddata Personol (a Data Euogfarnau Troseddol) (dan GDPR a Deddf Diogelu Data 2018

## 1. YNGLŶN Â'R POLISI HWN

**1.1** Hon yw'r "ddogfen bolisi briodol" ar gyfer Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ("y Grŵp") sy'n nodi sut y byddwn yn diogelu Categorïau Arbennig o Ddata Personol a, phan fo'n berthnasol, Data Euogfarnau Troseddol.

**1.2** Mae'r polisi hwn yn cefnogi Polisi Diogelu Data'r Grŵp.

**1.3** Mae'r ddogfen hon yn bodloni gofyniad Deddf Diogelu Data 2018 bod dogfen bolisi briodol yn ei lle wrth brosesu Categorïau Arbennig o Ddata Personol a Data Euogfarnau mewn rhai amgylchiadau.

## 2. DIFFINIADAU

**Rheolydd:** y person neu'r sefydliad sy'n penderfynu pryd, pam a'r modd y prosesir Data Personol.

**Data Euogfarnau Troseddol:** data personol ynghylch euogfarnau troseddol a throseddau, gan gynnwys Data Personol ynghylch cyhuddiadau ac achosion troseddol.

**Polisi Cadw Data:** yn esbonio sut mae'r sefydliad yn dosbarthu'i wybodaeth ac yn rheoli'r modd y caiff y wybodaeth honno ei chadw a'i gwaredu. Nodir cyfnodau amser ar gyfer cadw data yn yr atodlen cadw data.

**Testun Data:** unigolyn byw a ddynodwyd neu y gellir ei ddynodi y mae gennym Ddata Personol amdano/amdani. Gall Testunau Data fod yn wladolion neu'n breswylwyr unrhyw wlad ac efallai y bydd ganddynt hawliau cyfreithiol ynghylch eu Data Personol.

**Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd Data (DPIA):** dulliau ac asesiadau a ddefnyddir i ddynodi a lleihau risgiau gweithgaredd prosesu data.

**Deddf Diogelu Data 2018:** Deddf Diogelu Data 2018**.**

**Swyddog Diogelu Data:** y person a benodwyd o dan GDPR**.**

**GDPR:** y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (*(EU) 2016/679*).

**Data Personol:** unrhyw wybodaeth sy'n dynodi Testun Data neu wybodaeth sy'n ymwneud â Thestun Data y gallwn ei ddynodi (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o'r data hynny'n unig neu mewn cyfuniad â dynodwyr eraill

sydd yn ein meddiant neu y gall yn rhesymol fod yn ein meddiant. Mae Data Personol yn cynnwys Categorïau Arbennig o Ddata Personol.

**Hysbysiad Preifatrwydd:** hysbysiad ar wahân sy'n nodi'r wybodaeth y gellir ei darparu ar gyfer Testunau Data pan fydd y sefydliad yn casglu gwybodaeth amdanynt.

**Prosesu neu Broses:** unrhyw weithgarwch sy'n cynnwys defnyddio Data Personol. Mae'n cynnwys derbyn, cofnodi neu ddal y data, neu gyflawni unrhyw weithred neu gyfres o weithredoedd ar y data, gan gynnwys trefnu, diwygio, adalw, defnyddio, datgelu, dileu neu eu dinistrio. Mae prosesu hefyd yn cynnwys anfon neu drosglwyddo Data Personol i drydydd partïon.

**Categorïau Arbennig o Ddata Personol:** gwybodaeth sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu rai tebyg, aelodaeth o undeb llafur, cyflyrau iechyd corfforol neu iechyd meddwl, bywyd rhywiol, cyfeiriadedd rhywiol, data biometrig neu genetig.

## 3. PAM RYDYM YN PROSESU CATEGORÏAU ARBENNIG O DDATA PERSONOL A DATA EUOGFARNAU TROSEDDOL

**3.1** Bydd y Grŵp yn prosesu Categorïau Arbennig o Ddata Personol a Data Euogfarnau Troseddol at y dibenion canlynol:

**(a)** Ystyried addasrwydd darpar fyfyriwr i astudio ar raglenni academaidd a gynigir gan y Grŵp;
**(b)** Gwirio hawl myfyrwyr, ymgeiswyr a gweithwyr i astudio/gweithio yn y DU;
**(c)** Asesu addasrwydd myfyriwr/gweithiwr i astudio/ gweithio;
**(d)** Gwirio bod ymgeiswyr/myfyrwyr yn addas ar gyfer cyflogaeth neu gwrs addysg barhaus yn y Grŵp;
**(e)** Cydymffurfio â rhwymedigaethau iechyd a diogelwch;
**(f)** Cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

## 4. EGWYDDORION DIOGELU DATA PERSONOL

**4.1** O dan y GDPR rhaid prosesu Data Personol yn unol â'r chwe egwyddor a nodir yn Erthygl 5(1). O dan Erthygl 5(2) rhaid i reolyddion allu dangos eu bod yn cydymffurfio ag Erthygl 5(1).

**4.2** Mae'r Grŵp yn cydymffurfio â'r egwyddorion yn gysylltiedig â Phrosesu Data Personol a nodir yn y GDPR sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ddata Personol fod fel a ganlyn:

**(a)** Yn cael eu prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw (Cyfreithlondeb, Tegwch a Thryloywder);
**(b)** Yn cael eu casglu dim ond at ddibenion penodol, amlwg a chyfreithlon (Cyfyngu ar Ddibenion);
**(c)** Yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol yng nghyswllt y dibenion y cânt eu prosesu ar eu cyfer (Lleihau Data);
**(d)** Yn gywir a phan fo angen, yn cael eu cadw'n gyfredol (Cywirdeb);
**(e)** Heb eu cadw ar ffurf sy'n ei gwneud yn bosibl dynodi Testunau Data am gyfnod hwy na'r un sy'n angenrheidiol at y dibenion y prosesir y data ar eu cyfer (Cyfyngu ar Storio); ac
**(f)** Yn cael eu prosesu mewn modd sy'n sicrhau eu bod yn ddiogel gan ddefnyddio mesurau technegol a sefydliadol priodol i ddiogelu rhag eu prosesu heb ganiatâd neu'n anghyfreithlon a rhag eu colli, eu dinistrio neu eu difrodi'n ddamweiniol (Diogelwch, Cywirdeb a Chyfrinachedd).

**4.3** Mae'r Grŵp yn gyfrifol am gydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a restrir uchod a rhaid iddo allu ddangos ei fod yn gwneud felly (Atebolrwydd).

## 5. CYDYMFFURFIO AG EGWYDDORION DIOGELU DATA (DATA PERSONOL A DATA CATEGORÏAU ARBENNIG)

### 5.1 CYFREITHLONDEB, TEGWCH A THRYLOYWDER

**5.1.1** Rhaid prosesu Data Personol yn gyfreithlon, yn deg ac mewn dull tryloyw yng nghyswllt y Testun Data. Dim ond yn deg ac yn gyfreithlon ac at ddibenion penodol y bydd y Grŵp yn prosesu Data Personol. Mae'r GDPR yn cyfyngu ar ein gweithredoedd yng nghyswllt Data Personol at ddibenion cyfreithlon penodol. Gallwn brosesu Categorïau Arbennig o Ddata Personol a Data Euogfarnau Troseddol dim ond os bydd gennym sail gyfreithlon dros eu prosesu a bod un o'r amodau prosesu penodol yng nghyswllt Categorïau Arbennig o Ddata Personol neu Ddata Euogfarnau Troseddol yn berthnasol. Byddwn yn dynodi ac yn cofnodi'r sail gyfreithiol a'r amod prosesu penodol y dibynnir arnynt ar gyfer pob gweithgaredd prosesu.

**5.1.2** Wrth gasglu Categorïau Arbennig o Ddata Personol a Data Euogfarnau Troseddol gan Destunau Data, naill ai'n uniongyrchol gan Destunau Data neu'n anuniongyrchol (er enghraifft gan drydydd parti neu ffynhonnell sydd ar gael i'r cyhoedd), byddwn yn rhoi i Destunau Data Hysbysiad Preifatrwydd sy'n nodi'r holl wybodaeth y mae ei hangen o dan y GDPR mewn hysbysiad preifatrwydd sy'n gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy, yn hawdd ei gael ac mewn iaith syml a chlir sy'n hawdd ei deall.

| **Sail Brosesu Gyfreithlon** | Amod prosesu ar gyfer Categorïau Arbennig o Ddata Personol |
|---|---|
| **Data ynghylch iechyd, lles a llesiant**<br><br>Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (*Erthygl 6 (1)(c)*) neu y mae angen y Data ar gyfer perfformio contract gyda'r Testun Data (*Erthygl 6(1)(b)*). | Angenrheidiol at ddibenion perfformio neu arfer rhwymedigaethau neu hawliau a osodir ar y rheolydd neu'r Testun Data neu a roddir i'r rheolydd neu'r Testun Data dan y gyfraith yng nghyswllt cyflogaeth, nawdd cymdeithasol neu amddiffyniad cymdeithasol.<br><br>*(Paragraff 1(1)(a), Atodlen 1, Deddf Diogelu Data 2018.*) |
| **Data tarddiad hiliol neu ethnig**<br><br>Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (*Erthygl 6(1)(c)*). | Angenrheidiol at ddibenion perfformio neu arfer rhwymedigaethau neu hawliau a osodir ar y rheolydd neu'r Testun Data neu a roddir i'r rheolydd neu'r Testun Data dan y gyfraith yng nghyswllt cyflogaeth, nawdd cymdeithasol neu amddiffyniad cymdeithasol.<br><br>*(Paragraff 1(1)(a), Atodlen 1, Deddf Diogelu Data 2018.*) |

| | |
|---|---|
| **Data Euogfarnau Troseddol**<br>Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (*Erthygl 6(1)(c)*).<br>**NEU**<br>Er budd cyfreithlon y sefydliad (*Erthygl 6(1)(f)*) nad yw wedi'i orbwyso gan hawliau a rhyddid sylfaenol y Testun Data. | Angenrheidiol at ddibenion perfformio neu arfer rhwymedigaethau neu hawliau a osodir ar y rheolydd neu'r Testun Data neu a roddir i'r rheolydd neu'r Testun Data dan y gyfraith yng nghyswllt cyflogaeth, nawdd cymdeithasol neu amddiffyniad cymdeithasol. *(Paragraff 1(1)(a), Atodlen 1, Deddf Diogelu Data 2018*.)<br>Yn bodloni un o'r amodau budd y cyhoedd sylweddol a nodir yn Rhan 2 Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018 (megis atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon). *(Paragraff 10(1), Atodlen 1, Deddf Diogelu Data 2018*.) |
| **Data cyfle cyfartal**<br>Er budd cyfreithlon y sefydliad (*Erthygl 6(1)(f)*) nad yw wedi'i orbwyso gan hawliau a rhyddid sylfaenol y Testun Data. | Angenrheidiol at ddibenion dynodi neu gadw golwg ar fodolaeth neu ddiffyg cyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal rhwng grwpiau o bobl a bennir yng nghyswllt y categori hwnnw, gyda'r bwriad o alluogi hyrwyddo neu gynnal y cyfryw gydraddoldeb.<br>*(Paragraff 8(1)(b), Atodlen 1, Deddf Diogelu Data 2018*.) |

## 5.2 CYFYNGU AR DDIBENION

**5.2.1** Rhaid casglu Data Personol dim ond at ddibenion penodol, amlwg a chyfreithlon. Ni ddylid eu prosesu ymhellach mewn unrhyw fodd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.

**5.2.2** Bydd y Grŵp yn casglu Data Personol dim ond at ddibenion penodol a bydd yn rhoi gwybod i Destunau Data beth yw'r dibenion hynny mewn Hysbysiad Preifatrwydd a gyhoeddir. Ni fyddwn yn defnyddio Data Personol at ddibenion newydd, gwahanol neu anghydnaws â'r rheini a ddatgelwyd pan gafwyd y data yn y lle cyntaf, oni bai ein bod wedi rhoi gwybod i'r Testun Data am y dibenion newydd a'i fod yntau neu hithau wedi cydsynio pan fo angen **NEU** os byddwn yn defnyddio Data Personol at ddiben cydnaws newydd, byddwn yn rhoi gwybod i'r Testun Data yn gyntaf.

## 5.3 LLEIHAU DATA

**5.3.1** Rhaid i Ddata Personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol yng nghyswllt y dibenion y caiff eu prosesu ar eu cyfer.

**5.3.2** Bydd y Grŵp yn casglu neu'n datgelu dim ond y Data Personol lleiaf sy'n angenrheidiol at y dibenion y caiff y data eu casglu neu eu datgelu ar eu cyfer. Byddwn yn sicrhau na fyddwn yn casglu data gormodol ac y bydd y Data Personol a gesglir yn ddigonol ac yn berthnasol i'r dibenion arfaethedig.

## 5.4 CYWIRDEB

**5.4.1** Rhaid i Ddata Personol fod yn gywir a, phan fo'n angenrheidiol, yn cael eu cadw'n gyfredol. Rhaid eu cywiro neu eu dileu yn ddi-oed pan fyddant yn anghywir.

**5.4.2** Bydd y Grŵp yn sicrhau bod y Data Personol sydd gennym ac a ddefnyddiwn yn gywir, yn gyflawn, yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn berthnasol i'r diben y cânt eu casglu gennym ar ei gyfer. Byddwn yn gwirio cywirdeb unrhyw Ddata Personol adeg eu casglu ac ar gyfnodau rheolaidd wedi hynny. Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i ddinistrio neu ddiwygio Data Personol sy'n anghywir neu nad ydynt yn gyfredol.

## 5.5 CYFYNGU AR STORIO

**5.5.1** Mae'r Grŵp yn cadw Data Personol ar ffurf y gellir ei dynodi dim ond cyhyd ag y bo eu hangen at y dibenion y'u casglwyd ar eu cyfer, neu pan fo rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i wneud hynny. Pan na fydd arnom angen Data Personol bellach cânt eu dileu neu eu gwneud yn ddienw'n barhaol.

**5.5.2** Mae'r Grŵp yn cynnal Polisi Cadw Cofnodion a gweithdrefnau cysylltiedig i sicrhau y caiff Data Personol eu dileu pan fydd amser rhesymol wedi mynd heibio at y dibenion yr oeddynt yn cael eu cadw ar eu cyfer, oni bai fod gofyniad cyfreithiol arnom i gadw'r data hynny am gyfnod hwy.

**5.5.3** Byddwn yn sicrhau y rhoddir gwybod i Destunau Data am hyd cyfnod storio data a sut y penderfynir ar y cyfnod hwnnw mewn unrhyw Hysbysiad Preifatrwydd perthnasol.

## 5.6 DIOGELWCH, CYWIRDEB, CYFRINACHEDD

**5.6.1** Caiff Data Personol eu prosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y Data Personol, gan gynnwys eu diogelu rhag eu prosesu heb ganiatâd neu'n anghyfreithlon a rhag eu colli, eu dinistrio neu eu difrodi'n ddamweiniol, gan ddefnyddio mesurau technegol neu sefydliadol priodol.

**5.6.2** Bydd y Grŵp yn gweithredu ac yn cynnal mesurau diogelwch rhesymol a phriodol rhag prosesu Data Personol mewn modd anghyfreithlon neu heb ganiatâd a rhag colli Data Personol neu eu difrodi'n ddamweiniol.

## 5.7 EGWYDDOR ATEBOLRWYDD

**5.7.1** Mae'r Grŵp yn gyfrifol am gydymffurfio â'r egwyddorion hyn, ac yn gallu dangos ei fod yn cydymffurfio. Swyddog Diogelu Data'r Grŵp sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn. Dylid cyflwyno pob cwestiwn ynghylch y polisi hwn i'r Swyddog Diogelu Data.

**5.7.2** Bydd y Grŵp yn gwneud y canlynol:

**(a)** Sicrhau y cedwir cofnodion o'r holl weithgareddau Prosesu Data Personol, a bod y rhain yn cael eu darparu ar gyfer y Comisiynydd Gwybodaeth ar gais.
**(b)** Yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd Data ar gyfer unrhyw Brosesu Data Personol risg uchel er mwyn deall sut y gallai'r prosesu effeithio ar Destunau Data, gan ymgynghori â'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydy'n briodol.
**(c)** Sicrhau y penodir Swyddog Diogelu Data i ddarparu cyngor annibynnol a monitro'r modd y caiff Data Personol eu trin, a bod gan y Swyddog Diogelu Data fynediad i adrodd wrth reolwyr ar y lefel uchaf.
**(d)** Meddu ar brosesau mewnol i sicrhau y caiff Data Personol eu casglu, eu defnyddio neu eu trin dim ond mewn ffordd sy'n cydymffurfio â chyfraith diogelu data.

## 6. POLISÏAU'R RHEOLYDD AR GADW A DILEU DATA PERSONOL

**6.1.1** Mae'r Grŵp yn ystyried bod diogelwch Categorïau Arbennig o Ddata Personol a Data Euogfarnau Troseddol yn fater difrifol iawn. Rydym wedi sefydlu mesurau diogelu gweinyddol, ffisegol a thechnegol i ddiogelu Data Personol rhag prosesu anghyfreithlon neu heb ganiatâd, neu rhag cael eu colli neu eu difrodi'n ddamweiniol. Pan gaiff Categorïau Arbennig o Ddata Personol neu Ddata Euogfarnau Troseddol eu prosesu, byddwn yn sicrhau'r canlynol:

**(a)** Y cofnodir y prosesu, a bod y cofnod yn nodi, pan fo'n bosibl, gyfnod amser addas ar gyfer dileu'n ddiogel ac yn barhaol y gwahanol gategorïau o ddata yn unol â'n Polisi Cadw Data.

**(b)** Pan na fydd arnom angen Categorïau Arbennig o Ddata Personol neu Ddata Euogfarnau Troseddol bellach at y diben y cawsant eu casglu ar ei gyfer, byddwn yn eu dileu neu'n eu gwneud yn ddienw'n barhaol cyn gynted ag y bo modd.

**(c)** Pan fydd cofnodion yn cael eu dinistrio byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu gwaredu'n ddiogel ac yn barhaol.

**6.1.2** Mae Hysbysiad Preifatrwydd sy'n nodi'r modd y caiff Data Personol eu trin, gan gynnwys y cyfnod y caiff y Data Personol eu storio, ar gael ar ein gwefan.

## 7. ADOLYGU

**7.1** Adolygir y polisi hwn ar brosesu Categorïau Arbennig o Ddata Personol a Data Euogfarnau Troseddol yn flynyddol.

**7.2** Cedwir y polisi hwn pan fyddwn yn prosesu Categorïau Arbennig o Ddata Personol a Data Euogfarnau Troseddol ac am gyfnod o chwe mis o leiaf ar ôl i ni orffen prosesu o'r fath.

**7.3** Darperir copi o'r polisi hwn ar gyfer y Comisiynydd Gwybodaeth ar gais ac yn ddi-dâl.

## Atodiad

### 1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â diogelu data categorïau arbennig ac yn ychwanegu at Bolisi Diogelu Data presennol Grŵp y Drindod Dewi Sant

### 2. Diben

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018 mae'r Brifysgol dan rwymedigaeth statudol i sicrhau bod y polisi hwn yn ei le.

### 3. Cwmpas

Gwaharddir y Brifysgol rhag prosesu Data Categorïau Arbennig yn ôl y gyfraith o dan erthygl 9(1) GDPR. Mae'r Polisi'n ymgorffori eithriad i'r gwaharddiad hwn (amod) sy'n caniatáu i ni brosesu data categorïau arbennig.

### 4. Polisi

Mae'r polisi'n hanfodol bwysig i waith AD yng nghyswllt prosesu data staff a hefyd y Gofrestrfa wrth drin ceisiadau pan fo data categorïau arbennig (er enghraifft ynghylch anabledd), Gwasanaethau Myfyrwyr wrth brosesu'r data hynny i allu cynorthwyo'r darpar fyfyriwr, er enghraifft, gydag asesiad anghenion neu addasrwydd i astudio a gwaith y Tîm Partneriaethau am resymau tebyg.

### 5. Monitro

Caiff y Polisi ei fonitro a'i ddiweddaru gan Swyddog Diogelu Data'r Grŵp ar sail flynyddol.

**6.** Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill:
https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/strategies-policies/2.0-Data-Protection-Policy-reviewed-approved-12.05.20-cym.pdf

**7.** Rheoli Fersiynau Dogfennau

| Fersiwn Rhif: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

(Dylai hyn gynnwys taith y polisi drwy'r strwythur Pwyllgorau).

**Awdur(on) y polisi:** Paul Osborne Swyddog Diogelu Data Grŵp y Drindod Dewi Sant

**Statws presennol y Polisi:** Cymeradwywyd

**Ydy'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol:** AB ac AU – Ydy

**Dyddiad ei gadarnhau:** 30 / 01 / 2020

**Dyddiad y daw i rym:** 30 / 01 / 2020

**Dyddiad adolygu'r polisi:** 29 / 01 / 2021

**I'w gyhoeddi:** ar wefan Y Drindod Dewi Sant